**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**6ed Chwefror 2012**

**Y FFRAMWAITH CENEDLAETHOL TÂN AC ACHUB AR GYFER 2012 AC YMLAEN**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig newydd Tân ac Achub o 2012 ymlaen.

**Cyflwyniad**

2 Dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub, ac ymgynghori yn ei gylch.

3 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori hyd at 17 Chwefror 2012 ar Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer 2012 ac ymlaen. Mae hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (http://wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/frsframework12/?lang=cy). Nid oes fersiwn Gymraeg ar gael gan ei fod ar ffurf drafft.

**Gwybodaeth**

4 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig newydd wedi ei rannu yn bum pennod:

"Pennod 1 – Gweledigaeth, Llywodraethu a Chysylltiadau – gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ATA, gweithio ag eraill.

Pennod 2 – Cynllunio a Pherfformiad – gwella ansawdd a sicrhau canlyniadau gwell gan ddefnyddio'r un adnoddau neu lai ohonynt.
Pennod 3 – Cyflenwi Gwasanaethau – Darparu Gwasanaeth - lliniaru effaith peryglon sydd wedi'u pennu; darparu ymateb effeithiol a'r gwaith i atal digwyddiadau ymlaen llaw.
Pennod 4 - Cydnerthedd – strwythur cydnerthu ledled y DU ac ymateb i fygythiadau mawr.
Pennod 5 - Adnoddau – arweinyddiaeth; cynllunio'r gweithlu, datblygiad a hyfforddiant; diogelwch staff; cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r Gymraeg; rhannu cyfleusterau."

5 Mae'r modd y mae'r Fframwaith wedi ei gysoni'n agos gyda'r Rhaglen ar gyfer Gwella a'r agenda ar gyfer diwygio'r sector cyhoeddus wedi ei adlewyrchu yn y pwyslais y mae'n ei roi ar gydweithio/gydweithredu a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau.

6 Mae'r ddwy thema hyn i'w gweld yn gryf drwy'r fframwaith, sydd fel arall yn:

- cadarnhau rhai o ddyletswyddau, ymrwymiadau a strategaethau presennol yr ATAau
- pwysleisio'r angen i flaenoriaethu, arloesi, ymgysylltu a rhannu
- cadarnhau pwysigrwydd datblygu'r gweithlu'n dda, rheolaeth a diogelwch
- rhoi pwyslais mawr ar fabwysiadu methodoleg atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau fel rhan o gynllunio, mesur ac adrodd am berfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- ailadrodd yr angen i dargedu gwasanaethau at y rhai sydd fwyaf mewn angen, tra'n ceisio lleihau'r gofyn yn gyffredinol.

7 Tynnir sylw at ddau fater fel "matrion parhaus" – safonau ymateb i danau mewn cartrefi, a datblygu cynlluniau integredig sengl trwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol – nad ymdrinnir â hwy yn fanwl oherwydd amseriad yr ymgynghoriad. Bydd y fframwaith terfynol yn adlewyrchu'r sefyllfa fwyaf diweddar.

8 Mae'r fframwaith yn nodi chwe blaenoriaeth ar gyfer ATAau (paragraff 1.6):

- rhoi cyfleoedd ar waith i weithio gyda'i gilydd, a chyda gwasanaethau brys eraill a'r sector cyhoeddus yn ehangach, a hynny er mwyn sicrhau gwelliannau mesuradwy gan gynnwys mwy o effeithlonrwydd a mwy o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd;
- adnabod a rhoi cyfleoedd ar waith i rannu gwasanaethau;
- adolygu eu cydweithrediadau a'u partneriaethau presennol a newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael y canlyniadau sydd eu hangen, yn gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, ac yn cael mwy o werth am arian;
- cynnal lefelau gwasanaeth, ceisio cael mwy o welliannau ar adeg pan y bydd cyllidebau'n dod dan fwy o bwysau. Mae hyn yn golygu pwyslais ar gynllunio trwy osod adnoddau yn erbyn blaenoriaethau i ddangos sut maent yn gwneud gwahaniaeth;
- adnabod canlyniadau'n glir, a rheoli perfformiad;
- ceisio arloesedd a ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwneud y mwyaf o'r doniau, yr arbenigedd a'r adnoddau sydd gan yr ATAau.

9 Mae'r fframwaith hefyd yn nodi'r tri chanlyniad y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ATAau eu cael (paragraff 1.3):

- cael lleihad pellach yn nifer yr achosion o danau, y marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i danau, a chost/effaith tanau i'r economi a'r gymdeithas oherwydd hynny;
- cael lleihad pellach yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i wrthdrawiadau ar y ffyrdd;
- cael eu cydnabod gan bartneriaid (gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd) a'r gymuned fel rhanddeiliaid allweddol yn y gwaith o ddarparu gwelliannau ehangach ar gyfer newidiadau amgylcheddol a chymdeithasol.

10 Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar: y ddau yriant allweddol (cydweithio a chael gwell canlyniadau), y prif flaenoriaethau, y canlyniadau a ddisgwylir, y rolau a'r cyfrifoldebau, cynnwys penodau unigol ac unrhyw faterion arall nad ymdrinnir â hwy eisoes.

**Argymhelliad**

11 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi'r wybodaeth a ddarperir, ac yn

(ii) dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd, ar y cyd â'r Prif Swyddog Tân, i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod.